

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 20
Medi 2016 yn Ystafell Glaslyn, Plas y Brenin, Capel Curig**

Presennol: Richard (RR) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Sian Shakespear (SS), Gwyn (GW), Myfyr (MT), Elen (EH), Mark (MW) Gareth (GR)

Ymddiheuriadau: Sian Williams, Eirwen, Dewi, Iolo (ap Gwynn)

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Fai, 2016 fel rhai cywir.</p>
2	<p><u>LLYFR MYNYDDA</u></p> <p>CYFFREDINOL</p> <p>Cafwyd adroddiad cynnydd gan EO ar faterion yn ymwneud â chyhoeddi'r llyfr Adroddodd:</p> <p>i. mai'r penderfyniad terfynol oedd defnyddio "Copaon Cymru" fel teitl ar gyfer y llyfr</p> <p>ii. y byddai 1000 o gopiau yn cael eu hargraffu, ond rhwng y 25 copi y byddai'r Clwb yn eu derbyn yn ddi-dâl a'r rhai y byddai'r wasg yn eu derbyn, oddeutu 900 fyddai ar gael i'w gwerthu</p> <p>iii. Aeth dros y cytundeb roedd wedi ei dderbyn gan y wasg ar gyfer cyhoeddi'r llyfr</p> <p>Prif gymalau'r cytundeb oedd</p> <ul style="list-style-type: none">• Byddai'r Clwb yn gwneud cyfraniad o £3k tuag at y gost o gyhoeddi'r llyfr• Byddai'r wasg hefo'r hawlfraint ar y llyfr am 5 mlynedd ac ar ôl hynny byddai'n trosglwyddo i'r Clwb.• Byddai'r llyfr yn costio £15 i'w brynu a byddai'r Clwb yn derbyn breindal o £1.50 am bob copi a werthid. <p>iv. Rhoddodd fraslun o'r gyllideb ar gyfer y llyfr a'r noson lansio. Nododd y byddai'r Clwb yn gwneud cyfraniad tuag at y gost o gyllido'r llyfr ond byddai'n derbyn incwm freindal o'r gwerthiant. Llwyddwyd hefyd i gael nawdd gan y Cyngor Mynydda Prydeinig a Pharc Cenedlaethol Eryri.</p> <p>v. Roedd angen gwneud penderfyniad ynglyn â chyflwyno copi am ddim i'r cyfranwyr. Teimlid ar un pryd y dylai cyfranwyr (awduron teithiau a thynnwyr lluniau) gael copiau am ddim fel cydnabyddiaeth o'u cyfraniad. Fodd bynnag ni fyddai'r 25 copi roedd y Clwb yn eu derbyn am ddim gan y wasg yn ddigonol ar gyfer cyflawni hyn o bell ffordd.</p> <p><u>Cytunwyd</u></p> <p>1, Derbyn y cytundeb gan y Wasg ar gyfer cyhoeddi'r llyfr a chadarnhau bod y Clwb yn gwneud cyfraniad o £3k tuag at y gost o'i gyhoeddi</p> <p>2. Gofyn i'r Trysorydd gysylltu â CMP ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau yr arian nawdd maent wedi ei addo tuag at y gost o gyhoeddi'r llyfr</p> <p>3. Oherwydd bod y cyfranwyr i'r llyfr mor niferus na fyddai'n ymarferol cynnig copi o'r llyfr am ddim iddynt ond dylai noddwyr y llyfr a'r noson lansio dderbyn copi am ddim yn ogystal â Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn.</p> <p>4. Diolch unwaith eto i EO am ei holl waith ynghlwm â pharatoi'r llyfr i'w gyhoeddi</p> <p>NOSON LANSIO</p> <p>Cafwyd adroddiad gan GW ar y cynnydd a wnaed gan y Panel a sefydlwyd i oruchwylio trefniadau lansio'r llyfr</p> <p>Adroddwyd</p>

	<p>i.y cytunwyd i gynnal y lansiad ym Mhlas Tan y Bwlch ar nos lau 13eg Hydref. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ar y noson ar gost o £7.80 y pen. Bydd raffl yn cael ei threfnu ar y noson a chafwyd adduned o nifer o eitemau i'w cynnig fel gwobrwyon.. Gobeithir y gellir codi oddeutu £200 gyda'r raffl.</p> <p>ii. Rhagwelir mai trefn y noson fyddai i RR arwain ac i SS ddweud gair o ddiolch. Byddai EO yn gwneud cyflwyniad a thri neu bedwar o gyfranwyr yn darllen darnau o'u cyfraniadau i roi blas o'r llyfr. Byddai Aneurin Phillips hefyd yn dweud gair am y lluniau</p> <p>iii. Disgwylir i'r rhaglen Heno fod yn bresennol yno hefyd.</p> <p>iv. O safbwynt costau y noson, roedd CMP wedi cytuno i roi £150 tuag at y lansiad, ac hefyd roedd Siop Crib Goch, Llanberis wedi cytuno i roi £100 a disgwylir cyfraniad gan gwmni cynhyrchu'r rhaglen Heno. Bydd ymdrechion i gael mwy o noddwyr ar gyfer y noson yn parhau a bydd yn rhaid i'r Clwb gwrrdd ag unrhyw gostau fydd yn weddill ond ni ragwelir y bydd yn swm sylweddol</p> <p>v. Cafwyd trafodaeth ynglyn â phwy dylid eu gwahodd i'r lansiad</p> <p>Derbyniwyd y wybodaeth uchod ac fe gytunwyd y dylid symud ymlaen hefo'r trefniadau ar gyfer y noson lansio ar y llinellau uchod.</p>
3	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2016 - DARLITH</u></p> <p>Adroddodd SS fod darlith Gerall Pennant wedi bod yn llwyddiannus gyda chynulleidfa dda ac roedd ymateb positif wedi bod i newid diwrnod ac amseriad y ddarlith. Bydd angen ystyried y trefniadau ar gyfer darlith 2017 yn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ym mis Ionawr.</p> <p>Diolchwyd i SS am ei gwaith yn trefnu'r ddarlith.</p>
4	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO bod y rhaglen am y cyfnod wedi ei chwblhau a'i dosbarthu bellach. Oherwydd prysurdeb gyda pharatoi'r gyfrol Copaon Cymru ni chafodd gyfle i drefnu penwythnos yn y cyfnod yma. Roedd Maldwyn wedi dechrau ystyried wythnos y Clwb yn yr Alban ym mis Chwefror 2017 ac roedd ganddo nifer o leoliadau dan sylw ac wedi gofyn am farn y pwyllgor arnynt.</p> <p>Cafwyd trafodaeth hefyd ar yr angen i gynnal penwythnos yr Alban yn ystod wythnos hanner tymor mis Chwefror gan mai ychydig iawn o athrawon oedd yn dod arni bellach. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o gynnal wythnos ychwanegol o weithgareddau mynydda yn yr Alban ar adeg wahanol o'r flwyddyn</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Diolch i EO am lunio rhaglen ddiddorol iawn o weithgareddau 2. Cadw at y trefniant o gynnal penwythnos yr Alban ym mis Chwefror yn ystod wythnos hanner tymor a hysbysu Maldwyn mai ardal Ullapool roedd y pwyllgor yn ei ffafrio fel lleoliad ar gyfer wythnos 2017 3 Gofyn i EH edrych i fewn i'r posibilrwydd o gael wythnos arall o weithgareddau mynydda yn yr Alban yn ystod cyfnod gwahanol o'r flwyddyn. 4 Gofyn i GW edrych i fewn i'r posibilrwydd o gynnal taith ychydig o ddyddiau yn ystod yr wythnos a fyddai yn apelio i'r aelodau sy'n mynychu teithiau dydd Mercher y Clwb 5. Cytuno ag awgrym GW y gellid ystyried trefnu i wneud y daith "Coast to Coast" yng Ngogledd Lloegr a gofyn iddo edrych i fewn i'r mater 6. Gofyn i SS ystyried trefnu noson gymdeithasol ar gyfer aelodau ym mis Chwefror neu Fawrth y flwyddyn nesaf
5	<p><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT & DIWRNOD BLASU/TREFNIADAU GLAN-LLYN</u></p> <p><u>Myfyrwyr</u></p> <p>Adroddodd RR ei fod wedi cysylltu gyda Chlybiau Dringo a Chymdeithasau Cymraeg Prifysgolion Cymru i holi os y byddai gan eu haelodau ddiddordeb mewn ymuno â'r Clwb ar un o'r teithiau ond heb dderbyn unrhyw ymateb.</p> <p><u>Gwersyll yr Urdd, Glan-Llyn</u></p> <p>Adroddodd RR fod swyddogion Gwersyll yr Urdd Glan-Llyn wedi cysylltu i ddweud am wahanol resymau nad oedd yn bosib iddynt gynnal penwythnos o weithgaredd ar y cyd hefo'r Clwb ar gyfer cerddwyr, teuluoedd a phobl ifanc yn Hydref/Tachwedd eleni. Fodd bynnag roeddynt dal yn awyddus i</p>

gynnal gweithgaredd o'r fath ac yn gofyn os y gellid ei ail drefnu ar gyfer 1-2 Ebrill 2017. Nododd RR mai cyfraniad y Clwb i'r penwythnos fyddai arwaith teithiau cerdded.

Cytunwyd â'r awgrym i ail-drefnu'r penwythnos o weithgareddau ar y cyd hefo Gwersyll yr Urdd Glan-Llyn ar 1-2 Ebrill 2017

Hyfforddiant Arweinydd Mynydd

Adroddodd RR y bydd nifer o aelodau'r Clwb yn gwneud eu hasesiad ar gyfer ennill cymhwyster Arweinydd Mynydd ym Mhlas y Brenin ddiwedd Hydref. Mae'r asesiad yn cael ei drefnu mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth Awyr Agored.

6 CYFARFOD BLYNYDDOL

Adroddodd IPR y byddai manylion ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir eleni yng Ngwesty'r Oakley Arms ym Maentwrog ar ddydd Sadwrn, 5ed Tachwedd, 2016 yn cael eu dosbarthu yn ddiweddarach yn ystod yr wythnos

Byddai'n cysylltu ag aelodau'r pwyllgor i holi ynglyn â'u parodrwydd i barhau i wasanaethu ar y pwyllgor neu beidio. Gofynnodd i'r aelodau hefyd ystyried pwy ddylid ei enwebu fel Is-gadeirydd ar gyfer y Clwb

Adroddodd EO y byddai ef ac Aneurin Phillips yn trefnu i roi cyflwyniad ar y llyfr Copaon Cymru ar ôl y cinio blynyddol

Cytunwyd y byddai o werth i atgoffa holl aelodau'r Clwb ei fod yn agored i unrhyw aelod roi ei enw gerbron i wasanaethu ar y pwyllgor

7 OFFER

Adroddodd MT ei fod wedi rhoi rhai o hen raffau'r clwb, na fyddent yn cael eu defnyddio bellach ar weithgareddau dringo, i'r aelodau hynny a oedd yn gwneud y cymhwyster Arweinydd Mynydd ar gyfer ymarfer.

MATERION C.M.P

Nodwyd bod pwyllgor rhanbarthau yng Nghymru wedi cwrdd yn ddiweddar ac wedi ystyried bwriad y CMP i newid ei enw i Climb Britain Roedd yn bwnc dadleuol ac adroddodd MT fod yna drafodaeth chwyrn wedi bod yn y cyfarfod yn y gogledd ym Mhen y Pass ar nos Lun 12fed Medi

Roedd yna 4 opsiwn wedi ei roi gerbron sef:

Cadw'r enw presennol

Newid i Climb Britain

Denfyddio'r enw CMP ar gyfer pwrpasau gweinyddol a'r enw Climb Britain ar gyfer ymgyrchoedd marchnata

Ystyried unrhyw enw arall ar gyfer y sefydliad

Bydd Pwyllgor Rheoli Cenedlaethol y CMP yn cwrdd yn fuan a bydd adborth o'r pwyllgorau rhanbarthol yn cael ei gyflwyno iddynt

Cytunwyd, yn ddibynnol ar beth fydd penderfyniad y Pwyllgor Cenedlaethol, hysbysu y CMP os angen mai'r opsiwn o gadw yr enw CMP oedd yr un yr oedd y Clwb Mynydda yn ffafrio ond gellid defnyddio'r enw Climb Britain i rhai bwrpasau os y dymument.

PARTNERIAETH AWYR AGORED

Dim i'w adrodd

8	<p><u>Y GWASANAETH BYSUS SHERPA.</u></p> <p>Mynegodd GW ei siom at yr ymateb a dderbyniwydd oddi wrth Dafydd Wynn Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd i'r llythyr a anfonwyd ato yn dilyn y cyfarfod diwethaf yn mynegi pryder ynglyn â'r diffygion a welwyd yn y Gwasanaeth Bysus Sherpa tu allan i'r ddarpariaeth rhwng Llanberis a Phen y Pass. Roedd llythyr Mr Williams yn datgan bod y Cyngor o'r farn fod y gwasaneth presennol yn darparu gwerth am arian ac yn gynaliadwy .</p> <p>Adroddodd GW am brofiad a gafodd ym mis Gorffennaf eleni pan ddaliodd ef a chyd -gerddwr y bws Sherpa o Lanrwst i Fangor er mwyn cerdded ar y Carneddau o Fwthyn Ogwen. Er eu bod i lawr mewn da bryd i ddal y bws yn ôl nid oedd golwg ohono ac bu'n rhaid iddynt gerdded i Gapel Curig i ddal y bws Sherpa o Lanberis i Fetws y Coed. Nododd ei fod wedi gallu ymdopi â'r sefyllfa gyda'i wybodaeth leol ond fod yna nifer ymwelwyr o dramor ar y bws yn y bore yn dod i fyny i Fwthyn Ogwen ac os oedden nhw hefyd wedi bwriadu dal yr un bws yn ôl byddai wedi achosi cryn drafferthion a phryder iddynt yn arbennig gan mai hwn oedd bws olaf y dydd.</p> <p>Bu gohebiaeth pellach gyda'r Cyngor am y digwyddiad yma a chafwyd cadarnhad bod problemau wedi bod hefo amseru'r bws ar y diwrnod dan sylw</p> <p>Roedd y Pwyllgor o'r farn fod gan y Cyngor gyfrifoldeb i gyd-gordio'r gwasanaeth Sherpa fel ei fod yn cynnig gwasanaeth effeithlon i gerddwyr oedd am gychwyn allan yn y bore a dychwelyd gyda'r nos ar fynyddoedd y rhan yma o Eryri. Roedd pawb o'r farn fod y gwasanaeth yn gweithio yn dda rhwng Llanberis a Phen y Pass ond bod angen sylw i lwybrau eraill y Gwasanaeth Sherpa</p> <p>Cytunwyd y dylid gyrru llythyr pellach i'r Cyngor Sir ar y llinellau uchod ac y dylid gyrru copi i Sian Gwenllian AC Arfon.</p>
9	<p><u>MOEL SIABOD</u></p> <p>Adroddodd GW ei fod wedi bod i fyny Moel Siabod yn ddiweddar a bod cyflwr y llwybr ger Llyn y Foel yn druenus. Roedd yn ardal wlyb iawn ac gan nad oedd rhediad y llwybr yn glir roedd cerddwyr yn tueddu i fynd ar wasgar gan achosi difrod ac erydiad mewn nifer o lefydd. Credai os y gellid gosod preniau ar hyd y llwybr dros y darnau gwlyb byddai hyn yn annog cerddwyr i gadw at y llwybr ac yn diogelu gweddill yr ardal</p> <p>Cytunwyd a sylwadau GW ac y dylid cysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn argymhell iddynt roi ystyriaeth i wneud yr uchod</p>
9	<p><u>GWYL FYNYDDA BETHESDA</u></p> <p>Adroddodd SS y cynhaliwyd Gŵyl Fynydda yn ystod mis Awst yn Neuadd Ogwen, Bethesda. Roedd yr ŵyl wedi bod yn un llwyddiannus gyda chanmoliaeth iddi. Roedd gan y Clwb standin yno.</p>
11	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal rhywbryd yn Ionawr 2017 yng Nghapel Curig os yn bosib.</p>